# Aelodau ychwanegol o'r Senedd

1 Rhagfyr 2023

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 9 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn:

> *Hoffwn ofyn am y wybodaeth a ganlyn o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2004:*
>
> *Beth yw'r gost a ragwelir ar gyfer ychwanegu 36 o Aelodau newydd posibl i'r Senedd, a hynny o ran cyflogau blynyddol, hawliadau treuliau ac ati?  Hefyd pa gostau ychwanegol fyddai ynghlwm wrth recriwtio staff newydd i gefnogi'r aelodau newydd hyn, a'u cyflogau?*
>
> *Yn ogystal, a fyddech cystal â rhoi gwybod a fydd lle iddynt yn y Senedd neu a fydd angen adeilad newydd neu adeilad wedi'i adnewyddu, ac os felly, beth yw'r gost ychwanegol ar gyfer hynny hefyd?*

Gellir gweld ein hymateb isod.
Mae'r ddogfen sy'n cynnwys y wybodaeth hon wedi'i chyhoeddi ar wefan y Senedd. Er hwylustod, dyma linc ar eich cyfer.

Mae'r costau a ragwelir a gwybodaeth arall y gofynnwyd amdani ar gael yn y Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sydd yn y **Memorandwm Esboniadol** i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Gan fod y wybodaeth hon ar gael eisoes, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000  sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Yn gywir,

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF